

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITYCOUNCIL

www.llanfaircommunitycouncil.co.uk

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd trwy gyfrwng platfform ffôn/fideo gynadleda Zoom nos Lun, 13 Gorffennaf 2020 am 7pm.

PRESENNOL – Y Cynghorwyr Jayne Mayers [Cadeirydd], Keith Mouldsdales [Is-gadeirydd], Bob Barton, Owen Evans, Tim Faire, Osian Owen, Ceri Ranson, Steve Whipp ac Eirwen Godden, Clerc

HEFYD YN BRESENNOL – 4 aelod o'r cyhoedd a'r Cynghorydd Sir Hugh H Evans OBE

YMDDIHEURIADAU – Y Cynghorwyr David Baker [ymrwymiadau gwaith] a Wini Davies [salwch teuluol]

RHAN 1

681 DATGAN BUDDIANNAU Y Cynghorydd Keith Mouldsdales fel ymddiriedolwr Pwyllgor Rheoli Neuadd Eleanor.

682 COFNODION – PENDERFYNWYD

Cymeradwywyd cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a'r Cyfarfod Cyffredin a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2020 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

683 MATERION CYMUNEDOL

683.1 Opsiynau ar gyfer defnydd safle blaenorol ysgol Llanfair DC yn y dyfodol

Cyflwynwyd – Papur opsiynau wedi'i ysgrifennu gan y Cynghorydd Steve Whipp. Rhoddodd y Cynghorydd Whipp drosolwg cynhwysfawr gan ystyried sut y gallai'r cefndir cynllunio cenedlaethol [Polisi Cynllunio Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol], sirol [Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych, Mannau Cyhoeddus, Anghenion Tai] a lleol gynorthwyo'r trafodaethau, yn cynnwys enghreifftiau lle bo cymunedau eraill wedi neu'n bwriadu mabwysiadu asedau. Daeth hen ysgol Llanfair DC yn wag ym mis Chwefror 2020 ac mae'r Cyngor Cymuned wedi bod yn ystyried dyfodol y safle ers gwneud y cyhoeddiad am adeiladu'r ysgol newydd ddwy flynedd yn ôl. Roedd y trafodaethau yn y Cyngor Cymuned ac wrth lunio'r Cynllun Cymdogaeth wedi nodi defnyddiau potensial ar gyfer yr ysgol, gan gynnwys yn fras, ond heb fod mewn unrhyw drefn benodol:

- * Defnyddio adeilad yr ysgol (neu ran ohono) fel siop y pentref
- * Defnyddio adeilad yr ysgol fel canolfan deori busnes, tebyg i Ganolfan Dechnoleg Rhewl
- * Creu Gardd Heddwch yng nghae chwarae'r ysgol
- * Darparu maes chwarae i blant
- * Darparu llwybr ymarfer corff ar gae'r ysgol
- * 'Trac pwmpio' beicio i annog datblygu sgiliau beicio
- * Darparu rhandiroedd neu weithgareddau'n gysylltiedig â garddio
- * Cyfuno nifer o anghenion lle gellid defnyddio'r ysgol, gyda'r elusendai o bosibl, i ddarparu llety gwyliau a thwristiaid gyda'r potensial ar gyfer siop a defnydd cymunedol a allai fod wedi'i seilio ar yr Eglwys
- * Darparu tai fforddiadwy

Felly nod yr eitem agenda oedd ysgogi trafodaeth i benderfynu a oedd dymuniad i fynegi diddordeb yn yr ysgol, ei fuarth a'r cae chwarae ac os felly i gytuno ar y camau nesaf ar gyfer bwrw ymlaen gyda'r mater.

Yn dilyn trafodaeth am y mater **PENDERFYNWYD** y dylai Cyngor Cymuned Llanfair DC drafod a chytuno ar ddefnydd yr ysgol a'i diroedd yn y dyfodol fel a ganlyn:

[i] **mynegi diddordeb ffurfiol [cyn cyflwyno cais]** yn yr hen ysgol, y buarth a'r cae chwarae i Gyngor Sir Ddinbych gan ddilyn fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer trosglwyddo asedau. Dylid gwneud hyn fel dau gais ar gyfer [a] yr adeilad a'r buarth a [b] y cae chwarae.

[ii] **parhau i gynnal trafodaeth** gyda'r cyrff perthnasol â budd yn yr elusendai cyfagos i benderfynu ar ddefnydd gorau hen adeilad yr ysgol a'i fuarth yn unol â'r opsiynau a nodwyd yn yr adroddiad opsiynau; gyda'r nod o gyflwyno achos busnes ar gyfer eu defnydd.

[iii] **cyflwyno mesurau i ddatblygu cais i ddefnyddio cae chwarae'r cyn ysgol.** Yn dilyn mynegi diddordeb yn y safle er budd y gymuned dylai'r Cyngor Cymuned hyrwyddo a chefnogi'r broses Trosglwyddo Asedau ar gyfer y cae chwarae. Byddai hyn yn cynnwys llunio grŵp gyda chylch gwaith clir ar gyfer defnydd y cae yn y dyfodol yn unol â'r anghenion a nodwyd yn y Cynllun Cymdogaeth. Byddai'r grŵp yn adrodd i'r Cyngor Cymuned ac yn datblygu cynllun i alluogi ail gam [mynegi diddordeb] a thrydydd cam [cais llawn] y broses Trosglwyddo Asedau fynd ymlaen.

[iv] **cynnwys y strategaeth** ar gyfer datblygu'r ysgol a'r buarth yn y dyfodol yn y Cynllun Cymdogaeth i gynghori polisi ac ymatebion i unrhyw ymgynghoriadau cynllunio.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Whipp am gynhyrchu'r papur opsiynau ac i'r Cynghorwyr a'r trigolion am eu mewnbwn cyn ac yn ystod y cyfarfod. Cydnabuwyd y byddai'r broses Trosglwyddo Asedau Cymunedol tri cham yn cymryd amser; byddai'n rhaid i gynigion fod wedi'i seilio ar dystiolaeth, adnabod a nodi trigolion a mudiadau allweddol yn y pentref i ffurfio grŵp i arwain a datblygu cynllun strategol a chynllun busnes manwl, sicrhau cyllid ac yn y blaen. Y cam cyntaf fyddai trefnu cyfarfod cyhoeddus yn yr Hydref – pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd pobl sydd â diddordeb ac yn fodlon gwneud y gwaith hwn i ddod ymlaen i fod yn rhan o'r broses o'r dechrau ac i weithio gyda'r Cyngor Cymuned i symud y mater yn ei flaen.

Yn y cyfamser mae copi llawn y papur opsiynau a nodiadau'r cyflwyniad wedi'u rhoi ar dudalen Cymuned gwefan y Cyngor - www.llanfaircommunitycouncil.co.uk Bydd diweddariadau'n cael eu hychwanegu i'r wefan o dro i dro yn ogystal â rhwydweithiau cyfryngau cymdeithasol lleol a Chronicl Dyffryn Clwyd.

684 GOHEBIAETH

684.1 Cyflwynwyd – neges e-bost dyddiedig 30/06/20 gan un o drigolion Sir Ddinbych, yn cynnwys syniadau ar gyfer adeilad yr hen ysgol, cyflymder traffig ar yr A525 a'r llwybr peryglus o Lanfair i Ruthun. Ymdriniwyd â chyfeiriadau at adeilad yr hen ysgol dan Faterion Cymunedol; mae pryder am gyflymder traffig yn fater parhaus gyda phroblemau wedi'u nodi wrth Gyngor Sir Ddinbych; mae'r llwybr troed rhwng Llanfair a

Rhuthun hefyd yn fater parhaus sydd wedi'i gyfeirio at Mr Darren Millar AC hefyd – cyfarfod dilynol i'w drefnu maes o law; yn y cyfamser mae gan Adran Prifffyrdd Cyngor Sir Ddinbych gynlluniau i wella'r llwybr troed yn yr Hydref. Gofynnwyd i'r Clerc gael eglurhad ynghylch yr arwyddion 20 milltir yr awr du a choch yn Llanfair a'r diweddaraf o ran cyflwyno terfyn cyflymder 40 milltir yr awr ar fwch Nant y Garth.

684.2 Cyflwynwyd – neges e-bost dyddiedig 02/07/20 gan Gyngor Sir Ddinbych ynghylch diweddariad am y cydlynwyr cymunedol – Pandemig Coronafeirws. Ym mis Ebrill defnyddiwyd tîm o chwech Cydlynnydd Cymunedol ledled y sir i sicrhau fod y rhai'n ymateb i anghenion lleol yn cael eu cefnogi eu hunain i barhau i gynorthwyo trigolion mewn modd diogel ac effeithlon. Dywedodd y Cyngorydd Hugh Evans fod hyn wedi bod yn ymarfer cadarnhaol a arweiniodd at bwyslais go iawn ar roi cymorth i'r gymuned a bod Sir Ddinbych yn symud i'r cam adfer.

685 Adborth/Adroddiad[au] ynghylch Cynadleddau/Hyfforddiant/Cyfarfodydd

685.1 Cyfarfodydd ar-lein Adroddodd y Clerc ei bod wedi bod mewn sawl cyfarfod gyda Chlercod eraill trwy gyfrwng Zoom ers y cyfnod clo ddiwedd Mawrth. Mae'n ffordd ddefnyddiol o gadw mewn cysylltiad a dysgu am y datblygiadau diweddaraf yn y sector. Mae Llywodraeth Cymru'n gofyn am farn Cyngorau ynghylch effeithlonrwydd cyfarfodydd ar-lein fel eu bod mewn sefyllfa i ystyried a fyddai gwerth cynnwys darpariaeth mewn deddfwriaeth yn y dyfodol i barhau gyda rhai elfennau'r darpariaethau cyfarfodydd ar-lein a gynhwysir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020. Byddai barn y Cyngor ynghylch manteision ac anfanteision cyfarfodydd rhithiol yn cynorthwyo'n fawr gyda dylanwadu ar waith Llywodraeth Cymru a byddai ymateb i'r arolwg yn fuddiol yn y cyd-destun hwn. Mae'r adborth dechreuol gan Gynghorwyr yn dangos fod cyfarfodydd ar-lein wedi bod yn gymharol effeithiol ond yn anodd i'w cadeirio ac yn anodd i gyfranogwyr gymryd rhan mewn trafodaeth ystyrlon. Nid oedd pawb yn medru cymryd rhan oherwydd gwasanaeth band eang anwadal. Y farn oedd mai cyfarfod wyneb yn wyneb yw'r dewis a ffefrir.

685.2 Band eang Cyflwynodd y Cyngorydd Bob Barton ddiweddariad ynghylch darpariaeth band eang, grantiau sydd ar gael a lansio cylchlythyr newyddion Llanbedr DC, a oedd yn cynnwys erthygl ynghylch band eang.

686 CYNLLUNIO www.sirddinbych.gov.uk/cynllunio

686.1 Diweddariadau ynghylch ymholiadau Hysbysodd y Clerc y gofynnwyd i'r Adran Gynllunio gadarnhau p'un ai y cadwyd at yr amodau cymeradwyo'n gysylltiedig â Chais 20/2019/0510 i dorri 5 coeden yn Silver Birches, Llanfair DC. Cadarnhaodd yr Adran Gynllunio y dylid plannu 5 coeden yn eu lle y tu mewn i gwrtil preswyl yr eiddo yn y tymor plannu nesaf [mis Mawrth/Ebrill y flwyddyn nesaf yn fwyaf tebygol] yn dilyn torri'r coed. Nid yw'r Adran Gynllunio wedi cynnal ymweliad safle hyd yma. Adroddodd y Cyngorydd Steve Whip fod 28 coeden yn wreiddiol a fod ganddo bryderon am waredu coed ar raddfa mor fawr. Fodd bynnag, roedd y perchennog wedi comisiynu adroddiad proffesiynol ar gyflwr y coed ac wedi derbyn cyngor yn unol â hynny.

686.2 Cais 20/2020/0395 Silver Birches, Llanfair DC a gyflwynwyd gan Rachel Davies ac Alun Lewis. Dymchwel garej sy'n bodoli eisoes, adeiladu estyniad deulawr ar yr ochr a chreu lle parcio ychwanegol. **PENDERFYNWYD** y byddai [a] y Cynghorwyr Keith Mouldsdale a Steve Whipp yn trefnu cyfarfod gyda'r perchnogion ar y safle i drafod y cais a [b] rhoi pŵer dirprwyedig i'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Cynghorydd Steve Whipp ffurfio ymateb i'r cais.

686.3 Cais 20/2020/0436 Tan y Graig, Pentrecelyn a gyflwynwyd gan Mr Dean Irvin. Newid defnydd tir trwy leoli pedair uned llety gwyliau, gosod pecyn trin carthion, trac mynediad a gwaith cysylltiedig. **PENDERFYNWYD** cefnogi'r cais yn ddarostyngedig i gyflwyno mesurau i ymdrin â phroblemau gyda'r cwlfer yn yr ardal.

687 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD

687.1 Llwybrau Cyhoeddus [676.1] Dywedodd y Clerc ei bod wedi ysgrifennu llythyr i Gyngor Sir Ddinbych ynghylch yr awgrym y dylid gofyn i bob ymgeisydd sy'n cyflwyno cais am orchymyn gwiro llwybr cyhoeddus gymryd cyfrifoldeb am arwyddion y gwyrriad a chadw'r llwybrau'n glir ac mewn cyflwr da. Fodd bynnag, mae gan yr Awdurdod ymrwymiad i gynnal arwyneb y llwybrau, ac mae hyn yn cael ei drosglwyddo o'r llwybr sy'n bodoli eisoes i'r llwybr newydd pan fo llwybr yn cael ei wyro. Ni all yr Awdurdod orfodi'r ymrwymiad i ymgymryd â'r dyletswydd hwn ar unrhyw unigolyn. Yn arferol mae'r arwyddion i ddynodi gwyrriad yn cael eu cynnal am gyfnod o bum mlynedd ac erbyn hynny bydd yr Arolwg Ordians wedi'i hysbysu am y newid ac wedi newid y llwybr ar eu map argraffedig diweddaraf a'r holl fapiau ar-lein cyfredol. Nodwyd.

687.2 Gwella ffyrdd a materion llifogydd [676.2] Hysbyswyd Cyngor Sir Ddinbych am y materion a ganlyn o ran cyflwr y briffordd a'r draeniau [a] heibio Bryn Tirion, Bryn Chwareu a Fron Ganol, Graigfechan [cyfeirnod 238964] a [b] ffordd y B5429 o Graigfechan tuag at Tŷ Coch Ucha, Tyddyn Ucha a Phen y Bryn [cyfeirnod 238957]. Derbyniwyd ateb yn dweud fod y peiriant gwagu gwlliau yn ymgymryd â rhaglen o lanhau'r holl gridiau gwartheg ers Mehefin 2020. Fodd bynnag, nodwyd fod y gwaith tarmac wedi'i gwblhau.

688 MATERION ARIANNOL

688.1 Cyflwynwyd – Crynodeb incwm a gwariant a'r llyfr cofnodi Derbyniadau a Thaliadau am y cyfnod 1 Ebrill i 3 Mehefin 2020 **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cyfrifon.

688.2 Talu Cyfrifon/Anfonebau PENDERFYNWYD gwneud taliadau fel a ganlyn: £904.21 Hawliad treuliau'r Clerc [1 Ebrill – 30 Mehefin 2020, anfonwyd manylion yr hawliad i'r Aelodau cyn y cyfarfod]

688.3 Ceisiadau am Gymorth Ariannol PENDERFYNWYD dyfarnu grantiau fel a ganlyn:

£200 Eglwys Llanfair [costau torri glaswellt]

£200 Capel Bethel, Pentrecelyn [costau cynnal]

£150 Marie Curie – Sir Ddinbych [cost gwasanaethau nyrsio dydd a nos]

Gofynnodd y Cynghorydd Bob Barton am ystyried cynyddu'r gyllideb y flwyddyn nesaf tuag at gostau cynnal cyrff crefyddol yn yr ardal.

688.4 Cyflwynwyd – Rheoliadau Ariannol Diwygiedig [newidiadau i baragraff 11.1 a. ii – yn unol ag argymhellion yr Archwilydd Mewnol] **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r polisi fel yr argymhellwyd.

688.5 Cyflwynwyd – Ffurf drafft Datganiad Hygyrchedd y Wefan

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r datganiad fel y'i ysgrifennwyd. Byddai trefniadau'n cael eu gwneud i'r wefan newydd fynd yn 'fyw' yn fuan a thynnu sylw ati mewn erthygl yn rhifyn nesaf Cronicl Dyffryn Clwyd.

RHAN 2 689 PENDERFYNWYD eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol yr eitem a ganlyn:

679 GWAITH TRWSIO AC ADFER Y GOFEB RHYFEL, LLANFAIR DC

Adroddwyd fod trefniadau wedi'u gwneud i'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Clerc a John Pugh gynnal cyfarfod cyn dechrau'r contract gyda'r contractwr ar 09/07/20. Cynhaliwyd y cyfarfod, gan gadw pellter cymdeithasol diogel, i drafod y rhaglen waith, y cyfnod aros am ddeunyddiau, y dyddiad dechrau, cyfarwyddiadau'r safle, gofynion y contractwr a'r dyddiad cwblhau. Gobeithir, er gwaethaf oedi o ran cael y deunyddiau, y bydd y gwaith wedi'i orffen mewn pryd ar gyfer Sul y Cofio ym mis Tachwedd 2020. Atgoffwyd yr aelodau fod y cynllun yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ychwanegu enw Robert James Rivers Fuller MN [Dyddiad geni 12 Chwefror 1922] ac adnewyddu'r llythrennau ar y Gofeb. Cadarnhawyd hyn. Gofynnir am ddyfynbris.

690 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL

14/09/20 [i'w gadarnhau, Coleg Cambria Llysfasi], 12/10/20 [Ysgol Llanfair], 09/11/20 Ysgol Pentrecelyn], 14/12/20 [Canolfan Genus, Llanrhydd], 11/01/21 [Coleg Cambria Llysfasi], 08/02/21 [Ysgol Llanfair], 08/03/21 [Ysgol Pentrecelyn]

Gorffennodd y cyfarfod am 8.40pm

_____ CADEIRYDD _____ DYDDIAD